# Cymunedau Creadigol Creu Conwy

## Galwad Agored - Cyfle i Gydlynydd Llawrydd

### 1.0 CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae diwylliant a'r celfyddydau yn cyfrannu dros £11.8 biliwn at economi'r DU bob blwyddyn. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn gwerthfawrogi cyfraniad ein sector diwylliannol ac adlewyrchir hynny yn y cam blaenoriaeth yn ein Cynllun Corfforaethol 2022-2027. Mae Creu Conwy - Creu Sbardun, Strategaeth Ddiwylliannol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy 2021 – 2028 wedi cael ei datblygu er mwyn cyflawni'r amcanion hyn a hybu adnewyddiad cymunedol.

Mae Cymunedau Creadigol Creu Conwy'n brosiect gelfyddydau cymunedol newydd a arweinir gan dîm Diwylliant, Llyfrgelloedd a Gwybodaeth CBSC fel rhan o ddarpariaeth Strategaeth Ddiwylliannol Creu Conwy.

Ariennir Cymunedau Creadigol Creu Conwy gan Gyngor Celfyddydau Cymru drwy Creu, rhaglen Ariannu Celfyddydau'r Loteri Genedlaethol.

### 2.0 YNGLŶN Â'R PROSIECT

Bydd Cymunedau Creadigol Creu Conwy'n cynnig rhaglen gelfyddydau cymunedol hygyrch a chynhwysol i oedolion a phlant a phobl ifanc. Bydd cyfle i gyfranogwyr ddarganfod mathau newydd o gelfyddyd, datblygu eu sgiliau creadigol a mynegi eu hunain mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Darperir y prosiect ar draws y sir gan ganolbwyntio'r ddarpariaeth ar y 5 tref fwyaf - Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno a Llanrwst.
Cynhelir arddangosfa / perfformiad ar ddiwedd y rhaglen.

Mae gan y prosiect 4 nod allweddol:

1) Cynnig cyfleoedd i oedolion, plant, pobl ifanc a theuluoedd ymgysylltu â'r celfyddydau
2) Cynnig cyfleoedd gwaith a datblygu i ymarferwyr creadigol lleol
3) Sefydlu'r 5 ffordd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy ddull cydweithio integredig sy'n cefnogi'r rhaglen ataliol
4) Gwaredu rhwystrau i gyfranogiad diwylliannol a datblygu cynulleidfaoedd celfyddydau yn sir Conwy.

Bydd y prosiect yn darparu cyfanswm o 160 o sesiynau wedi'u harwain gan artistiaid fel y nodir isod:

- 2 sesiwn ymgysylltu yn y 5 ardal
- Gweithdai Plant a Phobl Ifanc - 16 sesiwn (hanner diwrnod) yn y 5 ardal
- Gweithdai Oedolion - 16 sesiwn (hanner diwrnod) yn y 5 ardal

## 3.0 Y GOFYNION

Rydym yn chwilio am Gydlynydd Prosiect Llawrydd sydd â phrofiad o ddarparu prosiectau celfyddydau cymunedol yn llwyddiannus a gweithio mewn modd cynhwysol gyda phobl o bob oedran a gallu mewn lleoliadau cymunedol. Bydd y cyfle cyffrous hwn yn cynnig cyfle i siapio'r prosiect a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl a chymunedau ar draws sir Conwy.

Mae'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad allweddol angenrheidiol yn cynnwys:

- Profiad o gydlynu a chynllunio rhaglenni a gweithdai creadigol mewn lleoliadau cymunedol
- Profiad o ymgysylltu a chefnogi mynediad
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o weithio mewn ffordd gynhwysol â phobl ddiamddiffyn a chymunedau amrywiol
- Angerdd am y celfyddydau a dealltwriaeth o botensial trawsnewidiol cyfranogiad diwylliannol
- Sgiliau trefnu a chyfathrebu rhagorol
- Hyblygrwydd a sgiliau datrys problemau
- Profiad o weithio gyda chymunedau dwyieithog
- Profiad o weithio gydag oedolion, plant a phobl ifanc
- Cyfarwydd ag asesiadau risg, gweithdrefnau Diogelu a pharodrwydd i weithio'n unol â Pholisi Diogelu CBSC.
- Dealltwriaeth o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a'r gallu i reoli data personol yn briodol
- Gwybodaeth am a dealltwriaeth o bwysigrwydd y Gymraeg a diwylliant Cymru
- Parodrwydd i weithio'n unol â: Safonau'r Gymraeg CBSC

Bydd y Cydlynydd Prosiect Llawrydd yn cynorthwyo â phob agwedd o'r prosiect - bydd enghreifftiau o weithgareddau / tasgau'n cynnwys:

- Helpu â recriwtio 5 o ymarferwyr Creadigol a chefnogi'r tîm prosiect a phartneriaid â'r broses o lunio rhestr fer a phroses ddethol.
- Gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer artistiaid a gomisiynir, lleoliadau a helpu i lunio cysylltiadau a datblygu partneriaethau gydag amrywiaeth o grwpiau a sefydliadau
- Mynychu cyfarfodydd i gynllunio a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth
- Cefnogaeth â hyrwyddo ac ymgysylltu
- Helpu â datblygu a threfnu'r rhaglen brosiectau
- Gweithio gydag artistiaid a lleoliadau i alluogi sesiynau hygyrch a sicrhau fod asesiadau risg ar waith
- Cefnogi Ymarferwyr Creadigol â threfnu arddangosfeydd / gosodiadau neu berfformiadau i arddangos y gwaith ar ddiwedd y prosiect.
- Cefnogi'r tîm prosiect ag adroddiadau, cadw cofnodion am brosiectau a chasglu a gwerthuso data.

**Amserlen y prosiect**

Dechrau

Mehefin - Gorffennaf 2025 - Comisiynu Ymarferwyr Creadigol a Chefnogaeth Lawrydd. Nodi grwpiau / partneriaid. Cynllunio'r ddarpariaeth gydag ymarferwyr creadigol - trefnu lleoliadau, ac ati.

Gorffennaf - Awst 2025 - Marchnata, hyrwyddo ac ymgysylltu

**Darparu**

Awst - Hydref - Cam 1

Tachwedd - Ionawr - Cam 2

**Cau'r Prosiect**

Chwefror - Arddangosfeydd / Perfformiad / Sioe / Gwerthusiad, adrodd am y prosiect a'i gau.

Y gyllideb ar gyfer y darn hwn o waith yw £6000 sy'n cynnwys yr holl gostau a deunyddiau, ond gan eithrio TAW.

**I fynegi diddordeb yn y cyfle hwn, llenwch y ffurflen gwahoddiad i roi dyfynbris. I wneud cais am ffurflen, anfonwch e-bost at creu@conwy.gov.uk. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflenni yw hanner dydd 30/06/25.**